

# Sut i Ysgrifennu Adolygiad Nofel



Mae adolygiadau llyfrau yn hollbwysig. Maen nhw'n cynnig cyfle i chi rannu eich meddyliau a'ch barn gyda darllenwyr eraill. Maen nhw'n sbarduno trafodaeth ac yn helpu eraill i wneud penderfyniad ynglŷn â darllen llyfr - neu beidio!


Yn union fel llyfr, mae angen bachu'r darllenwr o'r dechrau a sicrhau ei fod yn dal ati i ddarllen hyd y diwedd. Dylai'r canllawiau isod fod o gymorth i chi ysgrifennu eich adolygiad eich hunain.

Un peth arall - dim ond argymhellion yw'r canlynol. Mae gan bawb eu 'steil' ysgrifennu eu hunain, ac mae'n bwysig fod hyn yn dod drosodd. Does yna ddim ffordd hollol 'gywir' neu 'anghywir' o ysgrifennu adolygiad.

## 1. Disgrifiwch Y PLOT

Yn gyntaf, bydd y darllenwyr eisiau gwybod am beth mae'r llyfr yn sôn a beth sy'n digwydd ynddo. OND, mae angen cadw cydbwysedd yma - DOES NEB YN HOFFI SBOILARS!!

Rhaid i chi rannu jest digon o'r llyfr i berswadio'r darllenydd i'w ddewis, ond gan beidio sbwylio'r stori i gyd a 'sgwennu rhyw fath o adroddiad diflas. Rhowch amlinelliad bras o'r plot ac unrhyw ddarnau pwysig os ydych chi'n teimlo'n gryf amdanynt.



## 2. CYMERIADAU


Oes 'na brif gymeriadau sy'n werth eu trafod?  
Pa fath o bersonoliaeth sydd ganddynt?  
Oes ganddyn nhw gryfderau neu wendidau?  
Sut maen nhw'n rhyngweithio gyda'i gilydd?  
Ydi'r awdur wedi datblygu'r cymeriadau ddigon?  
Pa un yw eich ffefryn a pham?  
Os oes 'na 'badi' yn y stori, cofiwch sôn.

### 3. Mwy am y SBOILARS

Sori am fwydro am y rhain eto ond maen nhw'n bwysig!

Mae llyfrau'n gallu cynnwys darnau dramatig, sy'n creu teimlad emosiynol yn y darllenwr pan mae'n darllen. Gall hyn fod yn newid mawr fel 'twist' yn y stori, cyfrinach fawr yn cael ei ddatgelu, neu hyd yn oed cymeriad yn marw!

Peidiwch â difetha'r syrpreis i'r darllenwr. Cewch roi cliwiau wrth gwrs, ond dim byd sy'n mynd i sbwylio hwyl y darllen.



### 4. BACHWCH nhw!


Yn union fel mae'r awdur yn ceisio gwneud, mae angen bachu'r darllenwr o'r cychwyn.

Beth am frawddeg fer, fachog i drïo cyfleu beth wnaeth i chi ddewis y llyfr yno yn y lle cyntaf?

### 5. Rhowch eich BARN CHI

Dyma eich cyfle i fynegi eich barn. Weithiau mae'n hawdd anghofio hyn.

Gwnewch hyn drwy'r darn wrth i chi drafod gwahanol agweddau. Mae angen i chi ddweud pam dylai rhywun ddewis- neu beidio dewis- y llyfr yma.



### 6. Defnyddiwch eich LLAIS CHI

Mae pobl yn mwynhau darllen adolygiadau oherwydd steil yr adolygwr. Maen nhw'n hoffi hyn. Gwnewch o'n bersonol.

Mae'n bosib y bydd yr adolygiad braidd yn 'stiff' i gychwyn. Peidiwch â phoeni, bydd eich steil yn datblygu wrth i chi ysgrifennu mwy.

Mae ychwanegu 'chydig o hiwmor yn ffordd dda o ddod â'ch personoliaeth chi drosodd yn yr ysgrifennu.

## 7. Rhowch DDYFARNIAD

Mae'r rhain yn help i'r darllenwr gael syniad o beth oeddech chi'n feddwl o'r llyfr, ond mewn ffordd syml, weledol.

Yr un haws yw sêr allan o bump- cofiwch fod hanner sêr yn bwysig. Neu rif allan o ddeg.



## 8. Darllenwch adolygiadau ERAILL

Ffordd dda o ddysgu yw gweld sut mae eraill yn gwneud. Mae digon o adolygiadau ar y we – a dim am lyfrau yn unig. Mae pobl yn gwneud rhai am bopeth, o ffilmiau i ffonau symudol.

## 9. CYDBWYSEDD

Bwriad 'Sôn am Lyfrau' yw cefnogi'r diwydiant llyfrau Cymraeg ac annog mwy o bobl i fentro i'r siop leol neu'r llyfrgell a phigo llyfr. Yn amlwg byddem yn hoff o unrhyw adolygiad sy'n cefnogi'r bwriad yma, ond y gwir yw, efallai fod rhai llyfrau yn well am wneud hyn nag eraill.

Mae angen bod yn onest, ond ceisiwch fod yn gytbwys a theg. Os ydych yn dweud rhywbeth critigol gyntaf, beth am roi canmoliaeth i ddilyn? Gwnewch yn siŵr eich bod yn esbonio eich hun a chofio dweud PAM bob amser.

Mae bod yn gritigol yn fan da i gychwyn sgwrs gydag eraill am lyfr. Dydi pawb ddim yn cytuno ar bopeth bob amser - dyna sy'n gwneud bywyd yn ddiddorol!





## 10. Pa gynulleidfa?

Tydi pob llyfr ddim yn addas i bawb, ac mae llawer o wahaniaethau ac amrediad mewn llyfrau plant, yn nhermau cynnwys a lefel darllen. Bydd llyfr i blentyn 11 oed yn hollol wahanol i blentyn 7 oed.

Byddwch yn glir i bwy fyddai'r llyfr yma'n addas ac esboniwch pam. Oes 'na eiriau anodd? Oes 'na regi? Cynnwys tywyll neu ofnus? Ydi'r llyfr yn addas i fechgyn a merched?

## 11. SILLAFU!

Mi fyddwn ni'n edrych ar hyn cyn ei bostio i'r wefan ond os gallwch, plis cymerwch ryw ychydig funudau i wirio'r darn i weld os yw'n gwneud synnwyr. Efallai eich bod wedi anghofio darn pwysig!



Yn olaf, MWYNHEWCH y darllen a'r ysgrifennu a DIOLCH am gymryd yr amser i gyfrannu!

